**Vaughan Gething AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref VG/02206/21

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deisebau

10 Chwefror 2021

Annwyl Janet,

Diolch ichi am eich llythyr pellach dyddiedig 27 Ionawr ynglŷn â Deiseb P-05-1052, yn gofyn imi ystyried opsiynau pellach ar gyfer adolygu cyflogau'r GIG, a allai gynnwys ôl-ddyddio unrhyw ddyfarniad cyflog oherwydd y pandemig.

Fel y cadarnheais yn f'ymateb fis Hydref diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi trefnu bod proses y corff adolygu cyflogau o dan yr Agenda ar gyfer Newid a staff Meddygol a Deintyddol yn gweithio gyda'n partneriaid yn yr undebau a chyflogwyr y GIG, drwy'r broses annibynnol, i sicrhau ein bod yn darparu'r pecyn gwobrwyo gorau posibl. Rwyf wedi gofyn bod y cylch adolygu cyflogau yn cael ei ddwyn ymlaen a'i gynnal cyn gynted â phosibl. Serch hynny, Llywodraeth y DU sy'n pennu'r amserlenni, a disgwylir iddi adrodd ym mis Mai mewn perthynas ag argymhellion cyflog o fis Ebrill 2021.

Mae ein gweithwyr iechyd a gofal yn parhau i weithio'n eithriadol o galed wrth ddarparu gofal i bobl – fel y maent wedi ei gwneud drwy gydol y pandemig. Byddwn yn cadw pob opsiwn yn agored ar gyfer cydnabod ymrwymiad a chyfraniad staff y GIG a'n gweithwyr gofal yn ystod y pandemig.

Yn gywir,

Vaughan Gething

**Vaughan Gething AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.